Cofnodion cyfarfod y **CYNGOR** a gynhaliwyd yn hybrid nos Fercher, 19 Mawrth 2025, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Miss C. L. Williams (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Ms R. S. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons ac A. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 136. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Arweiniodd Gaplan y Maer, y Tad Anthony Nnamah MSP, bawb a oedd yn dymuno gwneud hynny mewn gweddi.

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Chamberlain-Jones, Ms J. L. McAlpine ac W. Price.

## 137. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd y Maer a oedd gan yr aelodau unrhyw ddatganiad o fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu yng nghyswllt unrhyw fusnes i'w ystyried a nodwyd ar yr agenda.

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

## 138. DATGAN SWYDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED

Cyhoeddodd Clerc y Dref ddatganiad ffurfiol o swydd wag Cynghorydd Cymuned yn ward Bodfor, Y Rhyl, a chynghorodd y byddai hysbysiad yn cael ei gyhoeddi bore yfory (dydd Iau, 20 Mawrth) yn ei gwneud yn ofynnol i 10 o etholwyr wneud cais i gynnal etholiad erbyn hanner dydd ar 9 Ebrill 2025.

Os na chyflawnir y gofyniad hwn, yna gellir llenwi'r swydd wag drwy gyfethol.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r wybodaeth.*

## 139. COFNODION

Cyflwynwyd y cofnodion a ganlyn o gyfarfod y Cyngor a'i bwyllgor i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 19 Chwefror 2025 - Cofnodion rhifau 115-135

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 19 Chwefror 2025 - Cofnodion rhifau 46-49

Cynigiwyd gan y Cynghorydd D. Simmons ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 5 Mawrth 2025 - Cofnodion rhifau 50-53

Cynigiwyd gan y Cynghorydd D. Simmons ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol - 5 Mawrth 2025 - Cofnodion rhifau 73-81

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir a'u cadarnhau i'w gweithredu.*

**140. ADRODDIAD Y MAER**

Cyflwynodd y Maer fanylion y digwyddiadau y bu hi a'r Dirprwy Faer ynddynt yn ystod y mis diwethaf, a chyfeiriodd at ei noson elusennol ei hun yn y Clwb Rygbi, a fu'n noson llwyddiannus, ac hefyd seremoni Wobrwyo a Symposiwn Un Cefnfor y Gymdeithas Gadwraeth Forol ym mwyty 1891 a fwynhaodd yn fawr.

Soniodd y Dirprwy Faer am seremoni codi baner i ddathlu Diwrnod y Gymanwlad a drefnwyd gan Gyngor Sir Ddinbych, a'i fod yn falch o fod wedi medru bod yn y digwyddiad.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad*.

**141. ADRODDIAD TALIADAU (ATODLEN A)**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau rheolaidd i'w gwneud rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026 i'w cymeradwyo gan yr aelodau a rhoi awdurdod i'r gwariant.

| Cyflenwr a disgrifiad | Amlder | Cost amcangyfrifedig am y flwyddyn, heb TAW |
|---|---|---|
| Cyflogau net staff Cyngor Tref y Rhyl | Misol | 110,400 |
| Didyniadau cyflog i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi | Misol | 44,700 |
| Cynllun Pensiwn Clwyd a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint | Misol | 44,700 |
| **Cyfanswm y costau staffio** | | **199,800** |
| Cyngor Sir Ddinbych – Ardrethi Annomestig (10 mis) | Misol | 8,400 |
| HSBC – ffioedd bancio | Misol | 180 |
| Tesco Mobile – ffonau symudol | Misol | 768 |
| Gwasanaethau ffôn a band eang BT | Chwarterol | 6,500 |

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor ar Fudd-daliadau – Swyddog Apeliadau | Misol | 15,000 |
| Cyngor ar Bopeth – Swyddog Tlodi Tanwydd | Chwarterol | 9,000 |
| Cyngor Sir Ddinbych – benthyciad SC2 | 3 gwaith y flwyddyn | 96,111 |
| Cyngor Sir Ddinbych – Y Bartneriaeth Camerâu Teledu Cylch Cyfyng | Blynyddol | 15,000 |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad a'i lofnodi gan Glerc y Dref a dau gynghorydd.*

## 142. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at yr Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb rhif: | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1990 | Sandra Williams | Gwasanaeth cyfieithu | 134.52 |
| 1991 | Pottles Premier Plants Ltd | Planhigion tymor y gaeaf 2024/25 | 1,291.68 |
| 1992 | Cyngor Sir Ddinbych | Gwasanaeth Cynnal a Chadw Tiroedd 2024/25 (yn cynnwys yr arddangosfeydd blodau a'r Gerddi Coffa) | 48,452.67 |
| 1993 | Clwb Rygbi'r Rhyl | Arlwyo i ddigwyddiad elusennol y Maer ar 6 Mawrth 2025 | 537.50 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£50,416.37** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan Glerc y Dref a dau Gynghorydd.*

## 143. Y STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2025/26

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau gymeradwyo'r strategaeth, y disgwylir iddi gynhyrchu oddeutu £10,000 o log i'r Cyngor.

Ychwanegodd Clerc y Dref y byddai adroddiadau chwarterol yn cael eu cyflwyno i roi diweddariadau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r strategaeth, a diolchwyd i'r Swyddog Cyllid.*

## 144. DATGANIAD Y TALIADAU ARIAN MÂN: MIS EBRILL 2024 – MIS MAWRTH 2025

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn dangos y taliadau arian mân a wnaed yn ystod y flwyddyn, gwerth £17.15.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**145. YR ADOLYGIAD RISGIAU BLYNYDDOL 2024/25 A CHYNLLUN GWAITH 2025/26**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn amlinellu'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn cyflwyno ei gynllun gwaith arfaethedig am y 12 mis nesaf i'r aelodau eu cymeradwyo.

Cynghorodd Clerc y Dref fod cymeradwyo'r dogfennau hyn yn un o ofynion y broses archwilio.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r* Adolygiad Blynyddol Rheoli Risigau 2024/25 *a'r* Cynllun Gwaith 2025/26.

**146. YR ADOLYGIAD RHEOLAETHAU MEWNOL BLYNYDDOL**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn dilyn cyngor gan archwilydd mewnol y Cyngor i gynnal adolygiad o'r rheolaethau mewnol bob blwyddyn erbyn 31 Mawrth, i'r aelodau ei gymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r Adolygiad Rheolaethau Mewnol 2024/25.*

**147. EITEM ER GWYBODAETH: PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

Hysbysodd Clerc y Dref nad oedd y panel uchod yn bodoli mwyach ac y byddai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn dod yn ei le.

**148. SESIWN HOLI AC ATEB**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod.

**149. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**150. ADLEOLI – COSTAU TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU**

Cynghorodd Clerc y Dref, mewn cyfrinachedd, fod angen prynu offer Technoleg Gwybodaeth newydd megis dysgl wi-fi ychwanegol, cyswllt TP, llwybrydd newydd, ail gamera a chyfrifiaduron/gliniaduron wedi'u huwchraddio i hwyluso'r symud o Swyddfeydd y Cyngor i Neuadd y Dref.

Cafwyd cyfarwyddyd gan yr aelodau y dylai'r holl offer newydd fod o'r safon gorau y gall y Cyngor Tref ei fforddio'n rhesymol er mwyn diogelu busnes y Cyngor yn y dyfodol ac i gynnig profiad mwy cynhwysol yn ystod cyfarfodydd hybrid nag sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Cynigiodd y Cynghorydd Blackwell ei gymorth proffesiynol i Glerc y Dref wrth benderfynu ar y dewisiadau mwyaf effeithlon i'r Cyngor gyda hyn.

***PENDERFYNWYD*** *awdurdodi Clerc y Dref i wario hyd at £5,000.*

**151. SEFYDLIAD Y CYNGOR TREF**

Cynghorodd Clerc y Dref fod y Pwyllgor Staffio bellach mewn sefyllfa i argymell i'r aelodau y dylid cynnig swydd Clerc y Dref i'r Dirprwy Glerc y Dref cyfredol, Mrs Helen Mead, pan fydd Mr Nickels yn ymddeol ar 31 Mai 2025.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Staffio, y Cynghorydd A. J. Rutherford, ei fod wedi cynnal cyfarfod gyda'r staff a'u bod yn fodlon â'r penodiad arfaethedig ac wedi rhoi mewnbwn defnyddiol ynghylch y strwythur staffio yn y dyfodol.

Byddai'r sylwadau a'r awgrymiadau'n cael eu rhannu ag aelodau'r Pwyllgor Staffio yn ei gyfarfod nesaf yfory, i'w hystyried.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r Pwyllgor Staffio yn cynnig swydd Clerc y Dref i Mrs Mead yn ei gyfarfod yfory a thrafod swydd wag Dirprwy Glerc y Dref, petai Mrs Mead yn derbyn y cynnig.*

**152. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddos y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: …..……………………..